

RHYBUDD o Benderfyniadau'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd yn rhithwir ddydd Mercher, 6 Gorffennaf 2022.

[Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig a bydd cofnodion llawn o'r cyfarfod gerbron y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion i'w cymeradwyo.

Mae'r dogfennau ar gyfer y cyfarfod uchod ar wefan y Cyngor ynghyd â recordiad o'r gweithgareddau].

Yn bresennol: Y Cynghorydd Neville Evans (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Glyn Haynes (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Jeff Evans, Trefor Lloyd Hughes, MBE, John I. Jones, Jackie Lewis, Dafydd Roberts, Ken Taylor, Alwen P. Watkin, Robin Williams

Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Robert Llewelyn Jones, Liz Wood

Hefyd yn bresennol: Aelodau Lleol: Y Cynghorwyr Paul Ellis (cais 7.6) Dyfed Wyn Jones (cais 7.7) Llinos Medi (cais 7.3), Alun Mummery (ceisiadau 7.7 a 12.4), Dafydd Rhys Thomas (ceisiadau 7.4 a 7.10)

1:00 yp i 5:00 yp

RHIF YR EITEM A'R PWNC	3 COFNODION
PENDERFYNIAD	Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod rhithwir blaenorol y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2022 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	4 YMWELIAD SAFLEOEDD
PENDERFYNIAD	Cyflwynwyd cofnodion yr ymweliadau safle rhithwir a gynhaliwyd ar 15 a 29 Mehefin 2022 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	6 CEISIADAU FYDD YN CAEL EI GOHIRIO
PENDERFYNIAD	Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	7 CEISIADAU'N CODI
PENDERFYNIAD	<p>7.1 OP/2021/10 - Cais amlinellol ar gyfer adeiladu 10 annedd gyda mynediad, ffordd fynediad fewnol a pharcio cysylltiedig, yn ogystal â manylion llawn y mynediad a'r gosodiad yn Nhyn y Ffynnon, Llannerch-y-medd</p> <p>Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog, yn amodol ar yr amodau cynllunio yn yr adroddiad a chwblhau cytundeb Adran 106 i sicrhau rhwymedigaethau mewn perthynas â darparu tai fforddiadwy a chyfraniad ariannol tuag at ddarparu man chwarae priodol oddi ar y safle, yn hytrach na'i ddarparu'n uniongyrchol o fewn y safle.</p> <p>7.2 FPL/2021/370 – Cais llawn ar gyfer newidiadau i ganiatâd cynllunio rhif FPL/2019/212 ar gyfer newid defnydd yr adeilad allan yn llety gwyliau yn Chwarelau, Brynsiencyn</p> <p>Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog, yn amodol ar yr amodau cynllunio yn yr adroddiad.</p> <p>7.3 FPL/2021/349 - Cais llawn ar gyfer creu manège marchogaeth preifat ynghyd â newid defnydd tir amaethyddol yn safle gwersylla trwy'r flwyddyn yn Caerau, Llanfairynghornwy</p> <p>Penderfynwyd gohirio'r cais er mwyn rhoi amser i Swyddogion gymharu'r cais â chais FPL/2019/223 a chyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor.</p> <p>7.4 FPL/2021/160 - Cais llawn ar gyfer newid defnydd annedd preswyl (Dosbarth Defnydd C3) i fod yn fusnes tecawê bwyd poeth (Dosbarth Defnydd A3) ynghyd ag addasiadau i'r fynedfa i gerbydau yn Bryn Bela, Lôn Sant Ffraid, Trearddur</p> <p>Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog ac yn amodol ar yr amodau cynllunio yn yr adroddiad.</p> <p>7.5 FPL/2021/266 - Cais llawn ar gyfer adeiladu 8 fflat preswyl fforddiadwy, adeiladu mynedfa i gerbydau, adeiladu lôn newydd ar y safle ynghyd â thirlunio meddal a chaled ar dir ger Ffordd Garreglwyd, Caergybi</p>

Penderfynwyd gohirio'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog ac am y rhesymau a roddwyd.

7.6 FPL/2021/361 – Cais llawn ar gyfer codi uned cyfnod sylfaen ac uned gofal plant newydd, mannau chwarae tu allan, maes parcio, ynghyd â gwaith cysylltiedig ar dir ger Ysgol y Graig, Llangefni

Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog, yn amodol ar yr amodau cynllunio yn yr adroddiad.

7.7 FPL/2021/267 – Cais llawn ar gyfer codi caban gwyliau ynghyd â gwaith cysylltiedig ym Mhlot 13, Pentre Coed, Porthaethwy

Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog ac yn amodol ar yr amodau cynllunio yn yr adroddiad.

7.8 FPL/2021/317 – Cais llawn ar gyfer dymchwel yr adeilad tri llawr presennol sy'n cynnwys dau fflat preswyl a storfa breswyl ategol ar y llawr gwaelod ac adeiladu adeilad tri llawr newydd yn cynnwys dau fflat preswyl a gwesty 10 ystafell wely gyda bwyty a chyfleuster chwaraeon dŵr cysylltiedig ar gyfer gwesteion a maes parcio cysylltiedig yn Cumbria and High Wind, Stryd Fawr, Rhosneigr

Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog ac yn amodol ar yr amodau cynllunio yn yr adroddiad.

7.9 FPL/2022/7 – Cais llawn ar gyfer ailddatblygu'r Maes Carafanau presennol i letya carafanau sefydlog ac ymestyn y safle i osod carafanau teithiol, ynghyd ag adeiladu bloc toiledau/cawodydd ym Maes Carafanau Mornest, Pentre Berw

Penderfynwyd cymeradwyo'r cais cyfan, yn groes i argymhelliad y Swyddog, oherwydd barnwyd bod elfen y cais a oedd yn ymwneud ag ymestyn y safle carafanau sefydlog yn cydymffurfio â Pholisi TWR 3.

Yn unol â gofynion y Cyfansoddiad, bydd y cais yn cael ei ohirio i'r cyfarfod nesaf yn awtomatig er mwyn caniatáu i Swyddogion ymateb i'r rheswm a roddwyd dros gymeradwyo dwy ran y cais.

	<p>7.10 FPL/2022/63 – Cais llawn ar gyfer codi ciosg gwerthu bwyd a diod er mwyn gwerthu hufen iâ, wafflau a diodydd meddal yn Ocean's Edge, Lôn Isallt, Trearddur Bay</p> <p>Penderfynwyd gwrthod y cais yn groes i argymhelliad y Swyddog oherwydd barnwyd ei fod yn groes i Bolisi MAN 6 yn y CDLIC.</p> <p><i>Yn unol â gofynion y Cyfansoddiad, bydd y cais yn cael ei ohirio i'r cyfarfod nesaf yn awtomatig er mwyn caniatáu i Swyddogion ymateb i'r rheswm a roddwyd am wrthod y cais.</i></p>
--	---

RHIF YR EITEM A'R PWNC	8 CEISIADAU ECONOMAIDD
PENDERFYNIAD	Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	9 CEISIADAU AM DY FFORDDIADWY
PENDERFYNIAD	Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	10 CEISIADAU'N GWYRO
PENDERFYNIAD	Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	11 CYNIGION DATBLYGU A GYFLWYNWYD GAN GYNGHORWYR ASWYDDOGION
PENDERFYNIAD	<p>11.1 HHP/2022/163 – Cais llawn ar gyfer addasiadau ac estyniadau yn Tan y Garnedd, Lôn Fferam Uchaf, Pentraeth</p> <p>Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog a gyda'r amodau cynllunio yn yr adroddiad.</p>

RHIF YR EITEM A'R PWNC	12 GWEDDILL Y CEISIADAU
PENDERFYNIAD	12.1 VAR/2022/36 – Cais o dan Adran 73 i ddiwygio amod (02) (caniatâd materion a gadwyd yn ôl) o ganiatâd cynllunio rhif OP/2019/6 (dymchwel hen weithle cemegol a

	<p>chodi 7 uned fusnes) er mwyn caniatáu amser ychwanegol i gyflwyno'r cais materion a gadwyd yn ôl yn Hen Safle Peboc, Llangefni</p> <p>Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog, yn amodol ar yr amodau cynllunio yn yr adroddiad.</p> <p>12.2 FPL/2022/87 – Cais llawn ar gyfer newid defnydd rhan o hen gae chwarae'r ysgol yn fan chwarae i blant yn Ysgol Gynradd Llangaffo, Llangaffo</p> <p>Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog ac yn amodol ar yr amod cynllunio yn yr adroddiad.</p> <p>12.3 VAR/2022/3 – Cais o dan Adran 73A i ddiwygio amodau (05) (Cynllun Rheoli Tail), (08) (Cynllun Tirlunio), (10) (Strategaeth Lliniaru Goleuadau), (11) (Cynllun Rheoli Coetir), (12) (Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu), (17) (Gwaith Archeolegol), ac (18) (Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu) o gais cynllunio rhif FPL/2019/251/EIA (codi uned ddofednod) er mwyn caniatáu cyflwyno a chymeradwyo manylion ar ôl cychwyn gwaith datblygu yng Nghae Mawr, Llannerch-y-medd</p> <p>Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog ac yn amodol ar yr amodau cynllunio yn yr adroddiad.</p> <p>12.4 FPL/2021/336 - Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu'r ganolfan iechyd, adeiladu mannau parcio newydd ynghyd â thirlunio meddal yng Nghanolfan Iechyd Llanfairpwll, Ffordd Penmynydd, Llanfairpwll</p> <p>Penderfynwyd cynnal ymweliad safle rhithwir yn unol â chais yr Aelod Lleol ac am y rheswm a roddwyd.</p> <p>12.5 FPL/2022/46 – Cais llawn ar gyfer adeiladu 12 annedd ynghyd â chreu ffordd fynediad fewnol ar dir ger Stad Bryn Glas, Brynsiencyn</p> <p>Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog, yn amodol ar yr amodau cynllunio yn yr adroddiad.</p>
RHIF YR EITEM A'R PWNC	13 MATERION ERAILL

PENDERFYNIAD

Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.